Polisi Rhyddid Gwybodaeth Estyn

Paratowyd o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

Ionawr 2007

Estyn
Rhagoriaeth i bawb....Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau addysg lleol (AALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- AALlau;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd; ac
- elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant y Ganolfan Byd Gwaith.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Swyddog Gwybodaeth
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at ymholiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)

© Hawlfraint y Goron 2006: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad.

Datganiad polisi

Cyflwyniad

Cymeradwywyd **Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000** (DRhG) ar 30 Tachwedd 2000. Mae'r Ddeddf yn rhoi hawl mynediad cyffredinol at bob math o wybodaeth a 'gofnodir' a ddelir gan awdurdodau cyhoeddus, yn ddarostyngedig i eithriadau penodol, ac mae'n gosod nifer o rwymedigaethau ar awdurdodau cyhoeddus. Cynllunnir yr eithriadau i ddiogelu gwybodaeth gyfrinachol neu wybodaeth arall lle gallai ei datgelu niweidio buddiannau'r Wladwriaeth neu fuddiannau trydydd partïon.

Daeth Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 i rym ym mis Ionawr 2005, er y cychwynnwyd gweithredu'r Ddeddf trwy gynhyrchu cynllun cyhoeddi ar gyfer pob awdurdod cyhoeddus, gan gychwyn gyda llywodraeth ganolog ym mis Tachwedd 2002 a chan orffen â'r holl gyrff cyhoeddus eraill erbyn 2003. Cymeradwywyd **Cynllun Cyhoeddi Estyn** gan y Comisiynydd Gwybodaeth ac mae'n disgrifio yr hyn y mae Estyn yn bwriadu ei gyhoeddi o'i ddogfennau a'i ddeunyddiau mewnol**.**

Mae'r datganiad polisi hwn yn nodi'r trefniadau a weithredir gan Estyn i sicrhau cydymffurfio â'r Ddeddf.

Polisi

Mae Estyn wedi ymrwymo i gydymffurfio'n llawn â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, a'r prif nodweddion sy'n effeithio ar weithdrefnau Estyn yw:

- hwyluso hawl mynediad gyffredinol at wybodaeth a ddelir gan Estyn wrth gyflawni swyddogaethau cyhoeddus, yn ddarostyngedig i amodau ac eithriadau penodol;
- o ran rhan fwyaf y wybodaeth eithriedig, rhaid datgelu'r wybodaeth oni bai bod y budd i'r cyhoedd wrth gynnal yr eithriad perthnasol yn gorbwyso'r budd i'r cyhoedd o'i datgelu.
- mabwysiadu cynllun i gyhoeddi gwybodaeth. Bydd y cynllun, y mae'n rhaid i'r Comisiynydd Gwybodaeth ei gymeradwyo, yn manylu'r dosbarthiadau gwybodaeth y mae Estyn yn bwriadu eu cyhoeddi, y dull o'u cyhoeddi a ph'un a yw'r wybodaeth ar gael i'r cyhoedd am ddim neu am bris.

Rolau a Chyfrifoldebau

Yn y pen draw, **Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru** sy'n gyfrifol am bennu'r polisïau a fydd yn gymwys i wybodaeth a ddelir gan Estyn ac am sefydlu polisïau, gweithdrefnau ac arweiniad ar gyfer gweinyddu ceisiadau am wybodaeth yn unol â darpariaethau Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Mae **Penaethiaid Cyfarwyddiaethau** yn gyfrifol am sicrhau bod gwybodaeth a ddelir yn eu meysydd cyfrifoldeb yn cydymffurfio'n llawn â'r polisïau a'r gweithdrefnau a osodir gan y Prif Arolygydd, gan gynnwys gwybodaeth sydd ym meddiant contractwyr, partneriaid neu gyrff eraill sy'n gweithio o dan gytundebau lefel gwasanaeth.

Mae **Rheolwyr** yn gyfrifol am sicrhau bod staff y maent yn eu cyfarwyddo ac yn eu rheoli yn ymwybodol o'r polisïau, y gweithdrefnau a'r arweiniad a osodwyd gan y Prif Arolygydd ac am wirio bod y staff hynny'n deall ac yn cymhwyso polisïau, gweithdrefnau ac arweiniad yn briodol wrth wneud eu gwaith o ddydd i ddydd.

Mae'r **holl staff** yn gyfrifol am brosesu gwybodaeth yn unol â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a'r polisïau, y gweithdrefnau a'r arweiniad a osodir gan y Prif Arolygydd.

Mae'r **Swyddog Gwybodaeth** yn gyfrifol am weinyddu pob cais am fynediad at wybodaeth a wneir i Estyn. Bydd y Swyddog Gwybodaeth hefyd yn bwynt cyswllt i holl staff Estyn sydd angen cyngor ar faterion sy'n ymwneud â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (rhoddir manylion cyswllt y Swyddog Gwybodaeth ar ddiwedd y Datganiad Polisi hwn). Lle bo modd, bydd y Swyddog Gwybodaeth yn cynnig cyngor yn uniongyrchol i staff ar faterion DRhG neu, fel arall, yn cyfeirio at berson cymwys i gael y fath wybodaeth.

Graddfeydd Amser

Yn yr un modd â phob awdurdod cyhoeddus, mae'n ofynnol i Estyn roi gwybod i'r ymgeisydd yn ysgrifenedig a oes ganddo'r wybodaeth y gwnaed cais amdani ac, os felly, yn ddarostyngedig i eithriadau, mynegi'r wybodaeth honno i'r ymgeisydd mewn ffordd sy'n ddealladwy, yn brydlon, a heb fod yn hwyrach nag 20 diwrnod gwaith ar ôl derbyn y cais.

Ceir eithriadau i'r amserlen hon pe bydd:

- yn rhaid i ni drosglwyddo'r cais i awdurdod arall am nad oes gennym ni'r wybodaeth, gan olygu bod y terfyn amser 20 niwrnod yn cychwyn wrth iddyn nhw dderbyn y trosglwyddiad;
- yn rhaid i ni gymhwyso eithriad y mae'n rhaid cynnal prawf budd y cyhoedd yn ei gylch, sy'n caniatáu i ni estyn y raddfa amser;
- ffi yn daladwy, ac o ganlyniad i hynny nid yw'r 20 niwrnod yn cychwyn tan i ni dderbyn a chlirio'r cyllid; neu os yw'r
- cais yn aneglur ac, felly, nid yw'r 20 niwrnod yn cychwyn tan i ni gael eglurhad gan yr ymgeisydd.

Eithriadau

Mae i Ryddid Gwybodaeth nifer o eithriadau sy'n caniatáu i awdurdodau cyhoeddus ymatal rhag rhyddhau ychydig o'r wybodaeth neu'r holl wybodaeth y gwnaed cais amdani, lle bo rheswm cyfiawn.

Eithriadau Llwyr:

Os yw eithriad llwyr yn gymwys, nid oes rhaid rhyddhau'r wybodaeth o dan DRhG ac nid yw prawf budd y cyhoedd yn gymwys.

Adran 21 - Gwybodaeth sy'n hygyrch i'r ymgeisydd trwy ddulliau eraill
Adran 23 - Gwybodaeth a gyflenwir gan gyrff sy'n ymdrin â materion diogelwch, neu wybodaeth sy'n ymwneud â'r cyrff hynny
Adran 32 - Cofnodion llys, ac ati
Adran 34 - Braint seneddol
Adran 36 - Gwybodaeth a fyddai'n niweidio'r gwaith o ymdrin â materion cyhoeddus yn effeithiol (sy'n gymwys i wybodaeth a ddelir gan Dŷ'r Cyffredin neu Dŷ'r Arglwyddi yn unig)
Adran 40 - Gwybodaeth bersonol (lle'r ymgeisydd yw testun y wybodaeth)
Adran 41 - Gwybodaeth a ddarparwyd yn gyfrinachol.
Adran 44 - Gwaharddiadau rhag datgelu gwybodaeth lle gwaherddir datgeliad gan ymddeddfiad neu lle byddai'n gyfystyr â dirmyg llys.

Eithriadau Amodol:

Hyd yn oed os yw un o'r eithriadau canlynol yn gymwys, rhaid datgelu'r wybodaeth oni bai bod y budd i'r cyhoedd wrth gynnal yr eithriad perthnasol yn gorbwyso'r budd i'r cyhoedd o'i datgelu.

Adran 22 - Gwybodaeth y bwriedir ei chyhoeddi yn y dyfodol
Adran 24 - Diogelwch gwladol
Adran 26 - Amddiffyn
Adran 27 - Cysylltiadau rhyngwladol
Adran 28 - Cysylltiadau o fewn y Deyrnas Unedig
Adran 29 - Yr economi
Adran 30 - Ymchwiliadau ac achosion a gynhelir gan awdurdodau cyhoeddus
Adran 31 - Gorfodi'r gyfraith
Adran 33 - Swyddogaethau Archwilio
Adran 35 - Fformiwleiddio polisi'r llywodraeth, ac ati
Adran 36 - Gwybodaeth a fyddai'n niweidio'r gwaith o ymdrin â materion cyhoeddus yn effeithiol (ac eithrio materion yr ymdrinnir â nhw o dan eithriad llwyr A 36)
Adran 37 - Cyfathrebu â'i Mawrhydi, ac ati ac anrhydeddau
Adran 38 - Iechyd a diogelwch
Adran 39 - Gwybodaeth amgylcheddol gan y gellir cael mynediad at hon drwy'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol.
Adran 40 - Data personol (lle bydd y wybodaeth yn ymwneud â thrydydd parti) lle byddai datgeliad yn torri ar unrhyw un o'r Egwyddorion Diogelu Data
Adran 42 - Braint gyfreithiol broffesiynol

Adran 43 - Buddiannau masnachol

Ffioedd o dan RhG

Caiff mwyafrif y costau ar gyfer cydymffurfio â cheisiadau am wybodaeth eu talu gan Estyn. Fodd bynnag, mae Rheoliadau Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data (Terfyn a Ffioedd Priodol) 2004 (y Rheoliadau) yn caniatáu i Estyn wrthod ateb ceisiadau am wybodaeth pe bydd cost cydymffurfio yn fwy na'r "terfyn priodol", fel y rhagnodir yn y Rheoliadau.

Bydd Estyn yn codi tâl yn unol â'r Rheoliadau. Wrth amcangyfrif cost cydymffurfio â chais am wybodaeth, bydd Estyn yn cymryd i ystyriaeth yr amser staff, y codir tâl amdano ar gyfradd o £25 yr awr, sy'n ymwneud â'r gweithgareddau canlynol:

- pennu a ddelir y wybodaeth;
- dod o hyd i'r wybodaeth neu ddogfen a allai gynnwys y wybodaeth;
- adfer y wybodaeth, neu ddogfen a allai gynnwys y wybodaeth; a
- thynnu'r wybodaeth o ddogfen sy'n ei chynnwys

Lle amcangyfrifir bod cost cydymffurfio â chais ysgrifenedig am wybodaeth yn is na £450 (sef y "terfyn priodol"), ni chodir unrhyw dâl; fodd bynnag, gall Estyn godi tâl am gostau atgynhyrchu'r wybodaeth, ei hanfon drwy'r post a dulliau eraill o drosglwyddo'r wybodaeth. O dan yr holl amgylchiadau lle bydd Estyn yn dewis codi tâl am wybodaeth a gyhoeddir drwy ei gynllun cyhoeddi, neu lle bydd yn codi tâl sy'n deillio o gais am fynediad at wybodaeth, cyhoeddir rhybudd ffioedd i'r ymgeisydd fel sy'n ofynnol o dan Adran 9 o'r Ddeddf. Bydd yn ofynnol i ymgeiswyr dalu unrhyw ffioedd cyn pen cyfnod o 3 mis, gan gychwyn ar y diwrnod y cyhoeddir y rhybudd ffioedd iddynt.

Pe byddai cost amcangyfrifedig cydymffurfio â chais am wybodaeth yn fwy na £450 (sef y "terfyn priodol"), nid yw'n ofynnol i Estyn ymateb i'r cais. Yn y fath achosion, bydd Estyn yn trafod â'r ymgeisydd a fyddai'n well ganddo/ganddi addasu'r cais i leihau'r gost.

Os bydd Estyn yn derbyn dau gais cysylltiedig neu fwy o fewn cyfnod o 60 niwrnod gwaith yn olynol, naill ai gan berson unigol neu gan ddau unigolyn neu fwy yr ymddengys eu bod yn gweithredu ar y cyd neu wrth ganlyn ymgyrch, caiff y gost o gydymffurfio â'r ceisiadau hyn ei gydgrynhoi. Os caiff costau amcangyfrifedig cydymffurfio â'r ceisiadau eu hychwanegu at ei gilydd ac y ceir bod y cyfanswm yn fwy na £450, ni fydd yn ofynnol i Estyn gydymffurfio ag unrhyw un o'r ceisiadau.

Yn gyffredinol, ni fydd Estyn yn darparu gwybodaeth mewn ymateb i gais pan fydd hyn yn costio mwy na £450. Mewn achosion eithriadol, os bydd yn penderfynu cydymffurfio â'r fath gais, bydd gan Estyn hawl i godi tâl am gost amcangyfrifedig y staff i adfer a chasglu'r wybodaeth, y codir pris o £25 yr awr amdano, yn ogystal â chostau rhoi gwybod i'r person sy'n gwneud y cais a oes gan Estyn y wybodaeth, a chostau cyfathrebu'r wybodaeth iddo/iddi. Mae hyn yn atebol ar gyfer TAW ar y cyfraddau arferol.

Lle bo cais am wybodaeth yn gais cymysg h.y. ei fod yn cynnwys cais am wybodaeth bersonol a/neu wybodaeth amgylcheddol, rhennir y cais i'w rannau cyfansoddol. Cost darparu gwybodaeth bersonol i destun y wybodaeth honno o dan delerau'r Ddeddf Diogelu Data fydd £10. Codir tâl am wybodaeth amgylcheddol o dan delerau'r **Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol (RhGA)**[*]

Hyfforddiant

Os yw'n ceisio gwybodaeth, daw pob cyfathrebiad ysgrifenedig (gan gynnwys trwy ddulliau electronig) ag awdurdod lleol o fewn cwmpas y DRhG, a rhaid ymdrin ag ef yn unol â darpariaethau'r Ddeddf. Felly, mae'n hanfodol bod pawb sy'n gweithio i Estyn yn gyfarwydd â darpariaethau'r DRhG, y Codau Ymarfer a gyhoeddwyd o dan ei ddarpariaethau ac unrhyw arweiniad perthnasol o ran arfer dda a gyhoeddwyd gan y Comisiynydd Gwybodaeth. Bydd Estyn yn sicrhau bod contractwyr, cyrff sy'n gweithio o dan gytundebau lefel gwasanaeth a chytundebau partneriaeth yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau i Estyn a bod ganddynt ddulliau digonol ac effeithiol ar waith i sicrhau y gallant gyflawni eu cyfrifoldebau mewn ffordd gymwys.

Monitro, adolygu a gwerthuso

Mae Estyn yn cadw cofrestr o'r holl geisiadau am fynediad at wybodaeth a wneir o dan y DRhG a'r camau a gymerwyd ynglŷn â phob cais. Gall y gofrestr nodi a wnaed cais am yr un wybodaeth neu wybodaeth debyg o'r blaen ac a gafodd ei darparu, neu a gafodd ei gwrthod a'r rhesymau am ei gwrthod. Mae hyn yn sicrhau cysondeb wrth ymdrin â cheisiadau tebyg ac yn sicrhau y nodir ceisiadau ailadroddus, ceisiadau a ddyblygir neu geisiadau blinderus. Mae hefyd yn nodi ceisiadau ailadroddus am yr un wybodaeth neu wybodaeth debyg na chyhoeddwyd eisoes, ac yn caniatáu i Estyn ystyried a ddylid cyhoeddi'r fath wybodaeth fel mater o drefn ar y wefan neu ar ffurf arall. Monitrir perfformiad wrth ymdrin â'r fath geisiadau gan Swyddog Gwybodaeth Estyn, a'i adrodd i'r Uwch Dim Rheoli.

Mae gan Estyn weithdrefnau i adolygu'n systematig ei drefniadau ar gyfer gweinyddu a rheoli ceisiadau am wybodaeth. Mae'r gweithdrefnau hyn yn cynnwys systemau ar gyfer archwilio cydymffurfiad â'r Ddeddf gan Estyn a'r rheiny sy'n cadw data ar ran Estyn.

Mae Estyn yn cadw cofrestr o'r holl gwynion a dderbyniwyd am ei drefniadau Rhyddid Gwybodaeth a bydd yn sicrhau y defnyddir unrhyw bwyntiau dysgu sy'n codi o'r fath gwynion i wella polisïau, gweithdrefnau ac arweiniad cysylltiedig.

Adolygir y polisi hwn yn flynyddol o leiaf i sicrhau ei fod yn parhau'n gyfoes, yn effeithiol ac yn cymryd arfer dda sy'n codi i ystyriaeth. Lle daw

[*] *Daeth y RhGA i rym ar 1 Ionawr 2005 hefyd, gan roi i aelodau'r cyhoedd yr hawl i gael mynediad at wybodaeth amgylcheddol a ddelir gan awdurdodau cyhoeddus. Mae Estyn yn ymgymryd â chyhoeddi'r fath wybodaeth wrth iddo ddod yn ofynnol.

cyfarwyddiadau cyfreithiol newydd i rym, adolygir y polisi yn unol â dyddiad cychwyn y ddeddfwriaeth honno.

Cwynion

Os oes gennych gŵyn am y ffordd y mae Estyn wedi ymateb i gais am wybodaeth o dan y DRhG, dylech ofyn i Estyn adolygu ei benderfyniad. Dilynwch y camau yng Nghyfnod 3 o **Weithdrefnau Adborth a Chwynion Estyn**. Cynhelir yr adolygiad gan y tîm priodol o fewn Estyn. Os byddwch chi'n parhau'n anfodlon, gallwch fynd â'r mater at y Comisiynydd Gwybodaeth. Gellir dod o hyd i fanylion cyswllt ar ddiwedd y datganiad polisi hwn.

Gwneud cais i Estyn am fynediad at wybodaeth:

Rhaid i'r cais:

- fod yn ysgrifenedig (mae ceisiadau drwy e-bost a ffacs yn dderbyniol)
- nodi enw'r ymgeisydd
- roi cyfeiriad gohebu; a
- disgrifio'n eglur y wybodaeth y gwneir cais amdani

Byddai o gymorth i ni i fodloni'ch cais yn fwy effeithiol petaech yn ei chyflwyno yn un o'r ffyrdd canlynol:

1) drwy e-bost wedi ei farcio er sylw'r Swyddog Gwybodaeth at: ymholiadau@estyn.gsi.gov.uk ; neu
2) drwy'r post at: Y Swyddog Gwybodaeth
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF2 5JW

Sylwch: Efallai y byddwch yn dymuno cyfeirio at y Ffeithlen sy'n dilyn y datganiad polisi hwn am grynodeb o RhG.

Cysylltiadau defnyddiol

Y Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF
www.informationcommissioner.gov.uk

I gael arweiniad gweithredu ar y Ddeddf a'i chefndir, cysylltwch â:
Yr Adran Materion Cyfansoddiadol
Selborne House
54 Victoria Street
London
SW1E 6QW

www.dca.gov.uk

Estyn

Rhagoriaeth i bawb....Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Ffeithlen Rhyddid Gwybodaeth

Beth mae'n ei olygu i chi?

Daeth yr hawl i wneud cais am wybodaeth gan awdurdodau cyhoeddus, o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (y Ddeddf), i rym ar 1 Ionawr 2005.

Mae'r Ddeddf yn eich caniatáu chi i gael mynediad at wybodaeth gofnodedig (fel adroddiadau, cofnodion cyfarfodydd ac e-byst) a ddelir gan awdurdodau cyhoeddus fel Estyn.

Sut ydw i'n gwneud cais?

Dylech gyflwyno'ch cais yn ysgrifenedig (mae hyn yn cynnwys e-bost a ffacs) at sylw Swyddog Gwybodaeth Estyn. Gellir cael manylion cyswllt ar ddiwedd y daflen hon.

Er mwyn i ni allu prosesu'ch cais mor gyflym â phosibl, byddai'n gymorth pe baech yn marcio'ch e-bost neu lythyr yn gais rhyddid gwybodaeth.

Dylech roi cymaint o wybodaeth â phosibl fel y gallwn nodi a lleoli'r wybodaeth rydych chi'n gofyn amdani. Os nad ydym yn deall eich cais pan fyddwn yn ei dderbyn, bydd y Swyddog Gwybodaeth yn cysylltu â chi er mwyn egluro'r hyn rydych am ei gael. Gallai hyn olygu ei fod yn cymryd mwy am amser i chi gael y wybodaeth.

Pe byddai'n well gennych dderbyn y wybodaeth ar fformat penodol (e.e. drwy e-bost neu fel copi papur) rhowch wybod i ni a cheisiwn ei darparu ar y fformat hwnnw lle bo modd.

Os oes angen unrhyw gyngor neu help arnoch wrth wneud eich cais, cysylltwch â'r Swyddog Gwybodaeth.

Gallwch hefyd gyfeirio at gynllun cyhoeddi Estyn, sy'n esbonio pa wybodaeth am Estyn a'i waith sydd ar gael i'r cyhoedd yn rheolaidd. Mae copi o'r cynllun cyhoeddi ar gael ar wefan Estyn www.estyn.gov.uk

Beth sy'n digwydd ar ôl derbyn fy nghais?

Mae'n ofynnol i Estyn gadarnhau neu wrthod bodolaeth y wybodaeth y gwnaed cais amdani ac, os ydyw'n bodoli, ei chyflwyno i chi cyn pen **20 niwrnod gwaith** o dderbyn eich cais, oni bai:

- Bod angen **ffi** am gyflenwi'r wybodaeth, neu
- Fod **eithriad** yn gymwys

Ffioedd

Ein nod yw osgoi codi tâl os oes modd, fodd bynnag, os oes ffi'n daladwy ar gyfer cydymffurfio â'ch cais, rhaid talu'r ffi cyn prosesu a rhyddhau'r wybodaeth. Gohirir y terfyn amser 20 niwrnod gwaith ar gyfer ymateb i geisiadau tan y derbynnir y taliad.

Eithriadau

Er bod y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn creu hawl i geisio gwybodaeth benodol a ddelir gan gyrff cyhoeddus, mae hefyd yn creu nifer o eithriadau o'r hawl honno. Mae enghreifftiau'n cynnwys gwybodaeth sy'n fasnachol sensitif, yn gyfrinachol, yn destun deddfwriaeth arall neu sydd ar gael yn hawdd trwy ddulliau eraill. Mae'r eithriadau hyn yn caniatáu i awdurdodau cyhoeddus ymatal rhag rhyddhau ychydig neu'r holl wybodaeth y gwnaed cais amdani.

Os penderfynwn beidio â datgelu ychydig neu'r holl wybodaeth y gwnaed cais amdani, byddwn yn rhoi gwybod i chi pa eithriadau a fu'n gymwys a pham.

Manylion Cyswllt

Estyn

Swyddog Gwybodaeth
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

☎ 029 2044 6446
🖷 029 2044 6448
✉ Enquiries@estyn.gsi.gov.uk
💻 www.estyn.gov.uk

Y Comisiynydd Gwybodaeth

Y Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

☎ 01625 545700
✉ mail@ico.gsi.gov.uk
💻 www.informationcommissioner.gov.uk

Prawf lles y cyhoedd

Mae rhai eithriadau yn ei wneud yn ofynnol i Estyn ystyried a yw ymatal rhag datgelu gwybodaeth o les i'r cyhoedd neu'n niweidiol i gynnal materion cyhoeddus.

Mae'r Ddeddf yn dweud bod yn rhaid i awdurdod cyhoeddus ryddhau gwybodaeth oni bai "yn holl amgylchiadau'r achos, bod lles y cyhoedd wrth gynnal yr eithriad yn fwy na'r lles i'r cyhoedd o ddatgelu'r wybodaeth".

Mae Estyn yn cefnogi barn y Comisiynydd Gwybodaeth y dylai datgelu gwybodaeth:

- Wella dealltwriaeth o faterion dadleuon cyhoeddus presennol a chyfranogiad ynddynt;
- Hyrwyddo atebolrwydd a thryloywedd gan awdurdodau cyhoeddus ar gyfer penderfyniadau a wneir ganddynt;
- Hyrwyddo atebolrwydd a thryloywedd gyda gwariant arian cyhoeddus;
- Caniatáu i unigolion ddeall penderfyniadau a wneir gan awdurdodau cyhoeddus sy'n effeithio ar eu bywydau ac, mewn rhai achosion, cynorthwyo unigolion i herio'r penderfyniadau hynny; a
- Dod â gwybodaeth sy'n effeithio ar ddiogelwch y cyhoedd i'r amlwg.

Os oes angen mwy o amser arnom i ystyried eithriad a chymhwyso prawf lles y cyhoedd, rhown wybod i chi pryd fyddwn yn disgwyl dod at benderfyniad.

Mae mwy o wybodaeth am eithriadau a phrawf lles y cyhoedd ar gael o wefan y Comisiynydd Gwybodaeth.

Gweithdrefnau adolygu

Os nad ydych chi'n fodlon â'n penderfyniadau o ran ein hymateb i'ch cais am wybodaeth, mae'r hawl gennych ofyn i ni adolygu'r mater. Dylid cyfeirio'ch cais am adolygiad i Reolwr Adborth a Chwynion Estyn, a'i dderbyn yn ddim hwyrach na 25 niwrnod gwaith ar ôl dyddiad ein llythyr penderfyniad. Os nad ydych chi'n fodlon o hyd, mae'r hawl gennych hefyd i gwyno i'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Ceisiadau blinderus neu ailadroddus

Mae Estyn yn cadw'r hawl i wrthod ceisiadau ailadroddus gan yr un person am yr un wybodaeth, neu geisiadau sydd â'r nod o aflonyddu ar waith Estyn.

Ceisiadau am wybodaeth am ddata personol

Yn gyffredinol, daw ceisiadau am ddata personol o dan y Ddeddf Diogelu Data yn hytrach na'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Byddwn yn parhau i ymdrin â'r fath geisiadau o dan bolisi a gweithdrefnau Deddf Diogelu Data Estyn. Unwaith eto, dylid gwneud unrhyw geisiadau am ddata personol i Swyddog Gwybodaeth Estyn.